# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 21ain o Fawrth 2022 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Bethan Lawton (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Richard Evans, Geraint Evans, Alan H. Jones

1. Ymddiheuriadau: Cynghorydd Arwel Pierce

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un cynghorydd ddatgan buddiant

3. Derbyn cofnodion 21 Chwefror 2022:

   **PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

4. Cais Ariannol - Kids Cancer Charity:

   **PENDERFYNIAD:** I beidio rhoi rhodd.

5. Zurich - yswiriant:

   **PENDERFYNIAD:** I dderbyn y polisi yswiriant.

6. Trosglwyddo £11,386 o gyfrif 30832596 i gyfrif 10457604:

   Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd wedi talu'r arian grant am offer newydd i'r cae chwarae i gyfrif cynilo'r cyngor, a bod angen trosglwyddo'r arian i gyfrif cyfredol. Cafwyd wybod bod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd wedi bod ym manc Barclays Dolgellau er mwyn symud yr arian, ac wedi tynnu rhai o hen enwau o'r rhestr llofnodwyr ar y mandad.

   Cafwyd wybod hefyd bod cais am fancio dros y we wedi ei gyflwyno, chais i ychwanegu'r Clerc a'r Cynghorydd Geraint Evans fel llofnodwyr.

   **PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

7. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101785 | £228.20 |
| Cyllid a Thollau EM | YG | 101786 | £57.00 |
| Dwr Cymru | Dwr | 101787 | £153.71 |
| Hefin Pugh | Torri gwrychoedd | 101788 | £55.20 |
| B Gwilym | Teleffon | 101789 | £32.80 |
| Zurich | Yswiriant | 101790 | £822.46 |

   **PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.
   I dalu ôl daliad i'r Clerc o Ebrill 2021 hyd at Fawrth 2022 yn unol â thelerau cenedlaethol.

8. Dail Dysynni - Llythyr o ddiolch:

   **PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

9. Cynnal cyfarfodydd hybrid:

   Trafodwyd yr anghenion ar gyfer cynnal cyfarfodydd hybrid.

   **PENDERFYNIAD:** Y Clerc i ymchwilio mewn i brisiau ac ystyried y mater yng nghyfarfod mis Mai 2022.

10. Cyngor Gwynedd - Swyddog Canlyniadau - Etholiad 5 Mai 2022:

Adroddodd y Clerc bod ffurflenni wedi cyrraedd a bod angen eu dychwelyd i Gyngor Gwynedd erbyn Ebrill, 5ed 2022. Nodwyd bod y cyfnod cyn etholiad yn dod i rym ar 18fed o Fawrth 2022.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

11. Un Llais Cymru - Adroddiad Blynyddol a Chynllun Hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr:

Adroddwyd bod angen adroddiad blynyddol ar gyfer blwyddyn 2021/22 erbyn mis Mai 2022, ac y bod angen i gynghorau cymuned baratoi cynllun hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr erbyn mis Tachwedd 2022.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

12. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
-y Pafiliwn heb ei lanhau
-angen gosod drysau newydd
-pyst ffens newydd sydd ar ffin y cae chwarae heb eu gosod
-nytiau rylox ar goll o'r siglen
-sgriwiau wedi pydru ân angen rhai newydd
-rholer y clwb pêl-droed yn gadael llanastr – angen iddynt fod yn fwy gofalus ble maent yn crafu pridd ac yn gadael pridd

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I drefnu cyfarfod gyda'r Clwb Pêl-droed

13. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nodwyd y canlynol gan y Cynghorydd Sir:
-Canolfan Byw yn Iach wedi derbyn rhuban am ei waith o gynnwys pobl gydag anableddau mewn chwaraeon. Yn bwriadu ceisio am wobr aur yn y dyfodol.
-yn cyfarfod y bwrdd iechyd er mwyn trafod y feddygfa, y staff ar drefniadau TUPE
-y bwrdd iechyd wedi methu denu cwmni i redeg y ddeintyddfa

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

14. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Derbyniwyd adroddiad llafar gan gynghorwyr yn dilyn cyfarfod safle gyda Chyfoeth Natur Cymru.

Adroddwyd:
-Nid oedd yn flaenoriaeth gan CNC i rwystro llifogydd rhag cyrraedd gerddi, eu blaenoriaeth oedd rhwystro dwr rhag cyrraedd tai yn Nolithel
-Wedi codi'r mater parthed gwartheg yn erydu clawdd llanw ger Ynys-y-Maengwyn, angen aros am ymateb y corff
-Wedi gofyn am offer hynofedd ar gyfer Nant Cynfal – CNC yn dweud nad ydynt am osod yr offer, bod arwydd wedi ei osod, bu iddynt awgrymu codi'r mater gydag elusen Ynys-y-Maengwyn, sef iddynt osod yr offer diogelwch/achub bywyd
-Bydd CNC yn paratoi ymateb ysgrifenedig yn dilyn y cyfarfod safle

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth
I gynnal cyfarfod ym mis Ebrill 2022 os mae materion brys.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 7:44pm

Llofnod y Cadeirydd ..........................................................